RCoA
Royal College of Anaesthetists

Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland

# Digwyddiadau a risgiau cyffredin i blant a phobl ifanc sy'n cael anesthetig cyffredinol

**Mae'r cerdyn crynhoi hwn yn dangos rhai o'r digwyddiadau a'r risgiau cyffredin y mae plant a phobl ifanc sy'n iach ac o bwysau normal yn eu hwynebu wrth gael anesthetig cyffredinol ar gyfer llawdriniaeth arferol (gall llawdriniaethau arbenigol beri risgiau gwahanol).**

**Mae anesthetigion modern yn ddiogel iawn.** Mae yna rai sgil-effeithiau cyffredin sydd ddim fel arfer yn ddifrifol nac yn para'n hir. Bydd risg yn amrywio rhwng unigolion, ac yn dibynnu ar y driniaeth a'r dechneg anesthetig a ddefnyddir. Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi y risgiau sydd fwyaf arwyddocaol yn ei farn ef neu hi. Dylech hefyd drafod ag ef neu hi unrhyw beth sy'n bwysig i chi.

## Cyffredin iawn
Mwy nag 1 o bob **10**
Sy'n cyfateb i un person yn eich teulu

- **Dolur gwddf/ Gwddf tost**
- **Cynhyrfu wrth ddeffro/ dihuno o anesthetig cyffredinol** – Oed 1-6 yn bennaf
- **Cyfog**
- **Newidiadau dros dro mewn ymddygiad** – ee pryder, problemau cysgu, gwlychu'r gwely

## Cyffredin
Rhwng 1 o bob **10** ac 1 o bob **100**
Sy'n cyfateb i un person mewn stryd

- **Mân anaf i'r wefus neu'r tafod**
- **Dolur ar safle'r pigiad**

## Anghyffredin
Rhwng 1 o bob **100** ac 1 o bob **1,000**
Sy'n cyfateb i un person mewn pentref

- **Problemau anadlu** – Angen triniaeth
- **Niwed i'r croen** – Triniaethau hirach yn bennaf

## Prin
Rhwng 1 o bob **1,000** ac 1 o bob **10,000**
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fechan

- **Angen Gofal Dwys (heb ei gynllunio)** – 1 o bob **2,400**. Mae'r risg yn uwch i blant dan 1 oed
- **Anaf i'r llygad** – ee crafiad ar y llygad
- **Niwed i ddannedd**

## Prin iawn
Rhwng 1 o bob **10,000** ac 1 o bob **100,000** neu fwy
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fawr

- **Anaffylacsis** – 1 o bob **40,000**. Adwaith alergaidd difrifol i gyffur
- **Dod yn ymwybodol yn ystod anesthetig** – 1 o bob **60,000**
- **Marwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i anesthesia** – **Rhwng** 1 o bob **100,000** ac 1 o bob **miliwn**
- **Anabledd tymor hir** – Llai nag 1 o bob **100,000**

## Rhagor o wybodaeth

Mae ein gwefan yn darparu rhagor o wybodaeth am y risgiau hyn yn ogystal â fideos byr i helpu plant i baratoi ar gyfer llawdriniaeth.

**Sganiwch i gael gwybod mwy:**

rcoa.ac.uk/childrensinfo

Mae pethau rydyn ni i gyd yn eu gwneud yn ein bywyd bob dydd, fel teithio ar y ffordd, yn peri risgiau uwch na'r risgiau **Prin iawn** uchod.

**Gadewch eich adborth am yr adnodd hwn yma: surveymonkey.co.uk/r/testrisk neu drwy sganio'r cod QR hwn:**